**Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**
**Economy, Skills and Natural Resources Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru

28 Medi 2021

Annwyl Gadeirydd

**Sicrhau Gwerth am Arian gan Grantiau Datblygu Gwledig**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 21 Gorffennaf ynghylch yr uchod, sy'n dilyn yr ystyriaeth flaenorol gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn perthynas â'r dystiolaeth ynghylch Grantiau Datblygu Gwledig.

Fel y gallwch ddychmygu, mae prosiectau sydd wedi derbyn cyllid o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig wedi wynebu cryn heriau, o ganlyniad i effaith y pandemig ac effeithiau parhaus ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru yn hyderus y bydd cyllid y rhaglen wedi cael ei wario'n llawn erbyn diwedd 2023.

Ar hyn o bryd yr ymrwymiad ar lefel prosiect yw £751.3 miliwn, sy'n golygu bod 90% o'r cyllid wedi'i neilltuo yn erbyn cyfanswm gwerth y rhaglen o £838 miliwn (nodwch nad yw gwerth Sterling y rhaglen yn sefydlog oherwydd newidiadau cyson i'r gyfradd gyfnewid). Mae ceisiadau gwerth £70 miliwn yn cael eu gwerthuso gan staff Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, ac mae cyfnodau'r cynllun yn parhau i weithredu i sicrhau bod cyllid y rhaglen yn cael ei neilltuo'n llawn. Ar 2 Medi roedd cyfanswm gwariant y rhaglen yn uwch na £550 miliwn, sef 66% o gyfanswm gwerth y rhaglen, gyda £386.9 miliwn ohono yn dod o gronfeydd yr UE.

O ran gwelliannau i'r broses ymgeisio, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu proses ymgeisio un cam gan ddefnyddio ei phorth Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein. Mae'r broses newydd wedi cael ei chynllunio i gasglu a defnyddio'r holl wybodaeth mewn un system sengl, gan symleiddio'r broses werthuso a chymeradwyo hawliadau ar gyfer buddiolwyr.

Yn ogystal, ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymarferion i wirio agweddau ar y ffordd mae prosiectau unigol yn cael eu gweinyddu a'u cyflawni, fel gofynion tendro cystadleuol, cyn cynnal y gwiriadau gweinyddol ffurfiol ar y safle tuag at ddiwedd prosiect. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gyflwyno i wirio pa mor rhesymol yw'r costau, lleihau baich gwiriadau ar y safle a symleiddio'r broses ofynnol ar gyfer cau prosiectau – gan ddileu'r

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 0300 025 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales


BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

posibilrwydd y bydd ôl-groniad wrth brosesu ceisiadau a thaliadau’n cael eu gwneud yn hwyr yn ystod gweddill cyfnod N+3, h.y. erbyn 31 Rhagfyr 2023.

Gan gydnabod ei bod yn bosibl y bydd prosiectau’n ei chael yn anodd bodloni dyddiad cau N+3 o ganlyniad i effaith pandemig COVID-19 ac ymadawiad y DU â’r UE, ar 21 Medi 2021 cyhoeddodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru becyn o ymrwymiadau pellach drwy’r Rhaglen Datblygu Gwledig, gan gynnwys elfen resymol o gynllunio i wario mwy nag sydd ar gael. Dylai’r dull hwn liniaru ymhellach y risg y bydd cyllid nad yw wedi cael ei wario’n cael ei golli.

Gyda’r dymuniadau gorau.

Yn gywir



**Andrew Slade**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol